Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Drenewydd yn Notais

**New Road**
**Porthcawl**
**CF36 5BL**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Drenewydd yn Notais

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Drenewydd yn Notais |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 209 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 170 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 21 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 18.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/10/2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/11/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/02/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu ac yn mwynhau eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ymgymryd â gweithgareddau ac yn gweithio â ffocws. Maent yn cydweithio'n ystyriol â phartneriaid ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i fodloni'r disgwyliadau a osodir ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau ac yn cymhwyso hyn yn dda i'w dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y cyfleoedd cyfoethogi amrywiol a ddarperir gan yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu amrywiaeth gyffrous o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn cynnal eu cymhelliant yn dda. Maent yn gosod amcanion clir ar gyfer dysgu disgyblion ac yn defnyddio dulliau addysgu effeithiol i feithrin medrau disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymagwedd gyson yr ysgol at ddatblygu medrau darllen disgyblion a'u defnydd o Gymraeg llafar yn effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd a mwynhad disgyblion. Fodd bynnag, mae addysgu ysgrifennu yn llai effeithiol, ac nid yw athrawon yn defnyddio adborth yn ddigon pwrpasol bob amser i helpu disgyblion i ddatblygu eu gwaith yn llawn. Mae swyddogion cymorth dysgu yn cyfrannu'n fuddiol iawn at y cynnydd a wna disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae pob un o'r oedolion yn rhoi sylw gofalus i anghenion a lles unigol disgyblion.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o staff ac maent yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Maent yn dangos dealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol ac yn nodi blaenoriaethau addas ar gyfer datblygu trwy eu gweithgarwch monitro. Mae staff yn rhannu cyfrifoldeb ar gyfer gwella ac yn gwneud defnydd da o ddysgu proffesiynol i gryfhau eu medrau eu hunain. Mae'r ysgol yn elwa ar bartneriaethau gwerth chweil gydag ysgolion eraill i ddatblygu arbenigedd ar y cyd a chydweithio ar newidiadau fel cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth cryf i'r ysgol ac yn sicrhau bod arweinwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithlon.

## Argymhellion

A1 Gwella addysgu ysgrifennu a chynyddu ystod y cyfleoedd, yn enwedig ar gyfer disgyblion hŷn, i gymhwyso'u medrau yn llawn

A2 Rhoi adborth clir i ddisgyblion sy'n eu helpu i wella'u gwaith yn llwyddiannus

A3 Darparu cyfleoedd addas i bob un o'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithredoedd addoli ar y cyd

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn ystod eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd da, o leiaf, o'u mannau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau iaith a chyfathrebu yn dda. Mae disgyblion iau yn gwrando â diddordeb ac yn barod i rannu eu meddyliau a'u teimladau. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn llawn cyffro wrth drafod y ffaith eu bod wedi darganfod wyau draig ar y maes chwarae. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod yn gynyddol huawdl. Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn gwrando'n dda. Maent yn cynnig barn ac yn rhoi rhesymau synhwyrol am eu safbwyntiau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trafod eu gwaith yn sylwgar mewn parau a grwpiau, ac yn cyfathrebu'n effeithiol i gyflawni canlyniadau adeiladol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn trafod gwahaniaethau mewn ardaloedd yn hyderus yn ystod cyfarfod digidol gyda disgyblion o ysgol yng Nghaerffili.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn mwynhau clywed storïau ac yn siarad amdanynt yn frwdfrydig. O'r dosbarth meithrin ymlaen, maent yn dechrau adnabod llythrennau a'u seiniau yn dda. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ffoneg da, sy'n eu galluogi i ddarllen llawer o eiriau anghyfarwydd yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau darllen â rhugledr a hyder. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mwynhau darllen er pleser ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dewis llyfrau wedi'u hysgrifennu gan eu hoff awduron neu rai sy'n adlewyrchu eu diddordebau personol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen ar goedd gyda chywirdeb, rhugledr a mynegiant priodol.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd da â'u hysgrifennu, o greu marciau ac ysgrifennu llythrennau unigol yn y dosbarth meithrin, ac maent yn gwneud cynnydd da i roi cynnig ar eiriau a brawddegau syml yn y dosbarth derbyn. Ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgrifennu'n fwy cadarn, gan ddefnyddio atalnodi cywir, er enghraifft wrth ysgrifennu rysáit ar gyfer gwneud ffrind da. Mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu at ystod o ddibenion, ac mae llawer ohonynt yn gwneud dewisiadau diddorol o ran geirfa, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu adolygiad ar gyfer cyrchfan gwyliau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6, yn benodol, yn ysgrifennu at amrywiaeth ddigon eang o ddibenion, ac nid yw llawer ohonynt yn ymestyn nac yn gwella'u hysgrifennu cystal ag y gallent. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn greadigol ar draws meysydd eraill o'u dysgu, ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, fel rhan o'r cyfnod yn arwain at ysgrifennu disgrifiadol, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau i adeiladu cuddfan ar gyfer draig ar gae chwarae'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion iau yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Mae disgyblion iau yn canu caneuon yn frwdfrydig ac

yn deall ac yn ymateb i gyfarwyddiadau athrawon â hyder cynyddol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio brawddegau cyfarwydd yn gywir ac yn ynganu geiriau Cymraeg syml yn glir. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio Cymraeg llafar ac yn dechrau defnyddio eu gwybodaeth gynyddol yn fwy sgyrsiol. Er enghraifft, maent yn rhannu gwybodaeth bersonol mewn ystod o gyd-destunau bob dydd, er enghraifft i ddisgrifio'r hyn yr hoffent ei wneud yn eu hamser hamdden. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gofyn ystod dda o gwestiynau ac yn ymestyn eu hymatebion eu hunain i gynnwys manylion perthnasol a difyr yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae disgyblion iau yn dechrau defnyddio geirfa fathemategol briodol wrth iddynt chwarae, er enghraifft wrth fynd ar helfa dreigiau a threfnu'r dreigiau yn ôl eu maint yn ddiweddarach. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u gwybodaeth fathemategol yn annibynnol, er enghraifft i gasglu gwybodaeth o siart bar am eu hoff weithgareddau. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u dealltwriaeth ddatblygol am dablau lluosi a bondiau rhif yn effeithiol i gwblhau cyfrifiadau yn y pen yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n systematig ac yn cymhwyso'u medrau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau â chywirdeb cynyddol. Er enghraifft, maent yn cyfrifo cost gwahanol eitemau ar restr siopa i weithio o fewn cyllideb gytunedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i sefyllfaoedd newydd, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cyfrifo costau eu dyluniadau ar gyfer ardal newydd yn yr awyr agored ar dir yr ysgol, ac yn trefnu teithiau trên ar gyfer y teulu gan ddefnyddio ap bwcio ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau digidol yn fedrus iawn mewn amrywiaeth o gyd-destunau creadigol, er enghraifft i gydweithio ar ddylunio cyrchfan gan ddefnyddio ap gemau 3-D. Mae llawer o ddisgyblion iau yn defnyddio technoleg yn ddi-dor yn ystod eu gweithgarwch, er enghraifft i dywys tegan rhaglenadwy o gwmpas castell neu i gasglu syniadau ar gyfer modelau sbwriel y maent yn eu creu. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau digidol i gefnogi ymchwil annibynnol yn dda iawn. Maent yn rhannu eu canfyddiadau trwy gyflwyniadau soffistigedig sy'n ennyn diddordeb ac yn hysbysu'n llwyddiannus. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn fedrus wrth storio ac adalw eu gwaith o blatfformau ar-lein, ac yn defnyddio technoleg yn effeithlon fel adnodd i gofnodi, rhannu a datblygu eu syniadau'n effeithiol. Fodd bynnag, mae defnydd disgyblion o gronfeydd data a thaenlenni yn gyfyngedig.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau artistig a chreadigol yn dda. Mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn defnyddio clai i ddylunio a chreu medal ar gyfer Dilwyn y ddraig, yn dilyn proses stampio a welsant yn ystod ymweliad â'r Bathdy Brenhinol. Mae disgyblion hŷn yn ymgymryd yn gadarnhaol â gweithgareddau creadigol fel cerddoriaeth a chelf. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn cyfuno camau traddodiadol a motiffau ailadroddus i goreograffu a pherfformio eu dawns werin eu hunain i gerddoriaeth gan y Stereophonics. Mae disgyblion hŷn yn mwynhau perfformio caneuon gwreiddiol yn gysylltiedig â'u testunau dosbarth, ac yn defnyddio eu medrau offerynnol yn fuddiol i ychwanegu gwead at gerddi y maent yn eu hysgrifennu am yr ardal leol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu hannibyniaeth yn effeithiol, ac yn cymhwyso'u

medrau i ddatrys amrywiaeth o broblemau dilys yn gysylltiedig â'u themâu cyfredol yn llwyddiannus.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder yn eu hysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn ei hethos cynhwysol a gofalgar. Mae disgyblion yn ffyddiog fod oedolion yn yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn ei hystyried wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos gofal ac ystyriaeth am ei gilydd. Maent yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus, yn cymryd eu tro ac yn cynorthwyo'i gilydd yn dda wrth fod yn gorfforol egnïol a chymdeithasu yn ystod amser egwyl. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Mae arweinwyr digidol yr ysgol yn hyrwyddo diogelwch ar-lein yn effeithiol trwy wasanaethau.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu. Maent yn dangos lefelau da o ddiddordeb yn eu gwaith ac yn siarad yn frwdfrydig amdano. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos rhinweddau bod yn ddysgwr uchelgeisiol, hyderus, medrus ac annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn hynod falch o ysgrifennu a pherfformio eu cyfansoddiadau cerddorol eu hunain ac yn eu lanlwytho ar eu sianel ffrydio fideo ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod gwersi. Maent yn cydweithio'n dda mewn grwpiau, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at drafodaethau ac yn dangos lefel dda o barch am gyfraniadau pobl eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth neu sbardunau llafar, gan oedolion a'u cyfoedion, yn ystod gwersi. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn cymryd rôl gynyddol mewn monitro eu cynnydd eu hunain. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn arfer annibyniaeth yn eu dysgu ac yn aml yn llwyddo i fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau y maent yn eu profi heb ddibynnu ar gymorth uniongyrchol gan oedolion.

Mae disgyblion yn datblygu'n dda i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn deg a gofalgar wrth ddelio â phobl eraill, ac yn dangos gwybodaeth dda am hawliau plant. Yn ddiweddar, mae disgyblion wedi galw grŵp Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ynghyd i ddatblygu a hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws yr ysgol. Mae grwpiau disgyblion yn arwain yr ysgol yn effeithiol wrth godi arian ar gyfer amrywiaeth o elusennau hefyd, er enghraifft Plant mewn Angen a Comic Relief.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn sylweddoli pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach wrth fwyta ac yfed. Maent yn deall bod angen gwneud ymarfer corff rheolaidd i gyflawni ffordd iach o fyw, ac mae llawer ohonynt yn mwynhau cymryd rhan ym menter y Filltir Ddyddiol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mwynhau cymryd rhan mewn clybiau pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi allgyrsiol, ac yn cynrychioli'r ysgol mewn gemau a chystadlaethau gydag ysgolion cyfagos. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd a gaiff disgyblion eraill i gymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o weithgareddau ar ôl yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan weithgar ym mywyd yr ysgol, ac mae grwpiau llais y disgybl yn gynhwysol. Mae eu cynrychiolwyr yn dangos ystod o fedrau

arwain da. Maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn falch o'u cyfraniadau gwerthfawr. Mae hyn yn cynnwys ymglymiad ysgol gyfan ar faterion sy'n bwysig iddynt, fel prosiect ailgylchu dillad 'Rigs and Rags' a gynhelir gan y Cyngor Eco. Mae disgyblion yn eithriadol o frwdfrydig am Brifysgol Drenewydd yn Notais, sef menter cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae syniadau disgyblion yn cyfrannu'n uniongyrchol at amrywiaeth y rhaglen, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn yr opsiwn y maent yn dewis ei ddilyn. Mae enghreifftiau o'r cyrsiau sydd ar gael i'r disgyblion yn cynnwys radio Drenewydd yn Notais, ioga, drama a chodio.

Ar hyn o bryd, mae'r gyfradd presenoldeb islaw'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae'r duedd gyffredinol mewn presenoldeb yn gwella ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd cyfraddau presenoldeb da.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol yn sicrhau bod egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd â diddordebau a blaenoriaethau penodol cymuned yr ysgol yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cynllunio themâu ysgol gyfan sy'n dod â dysgu disgyblion at ei gilydd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad yn bwrpasol. Maent yn addasu eu cynlluniau i ystyried syniadau disgyblion yn fedrus. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 a Blwyddyn 5 yn awyddus i ymateb i gais am gymorth gan 'dditectif' sy'n ceisio dal Elen Benfelen ar ôl iddi dorri i mewn. Ar ôl cael syniadau gan y disgyblion, mae'r athro'n eu helpu i gynllunio cyfweliadau gyda'r eirth a chreu posteri 'chwilio' manwl i ofyn am gymorth gan y cyhoedd. Yn yr un modd, ar ôl darganfod ŵy draig, mae oedolion yn y dosbarth meithrin a derbyn yn cynorthwyo disgyblion i chwilio ar dir yr ysgol am ddeunyddiau addas i greu nyth, ac yn dilyn eu hawgrym i ddarllen stori i'r ŵy i helpu ei gadw'n dawel. Mae'r cyfleoedd hyn yn rhoi synnwyr cryf o ddiben yn eu dysgu i ddisgyblion, ac yn cynnal eu cymhelliant yn dda.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'r awyr agored ac ardal leol yr ysgol fel cyd-destun ar gyfer dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn ymweld â'r parc, y traeth a'r pwll hwyaid wrth iddynt chwilio am eitemau a gollwyd gan 'genie'. Mae athrawon yn trefnu taith synhwyraidd yn yr ardal gyfagos ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 i gasglu syniadau ar gyfer cerdd berfformio am Borthcawl. Maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ap cydweithio yn y dosbarth i alluogi disgyblion i gydgyfrannu eu harsylwadau fel adnodd ar y cyd ar gyfer eu hysgrifennu. Mae'r profiadau hyn yn darparu symbyliad pwerus ar gyfer dysgu disgyblion sy'n dal eu diddordeb ac yn cynnau eu creadigrwydd yn dda.

Mae staff yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael yn yr ysgol i gefnogi dysgu'r disgyblion yn fuddiol. Er enghraifft, maent yn rhannu'r neuadd i ddarparu ardaloedd ymneilltuo i ddisgyblion hŷn weithio'n annibynnol ac mewn grwpiau bach gydag oedolion. Mae hyn yn galluogi swyddogion cymorth dysgu i ddarparu arweiniad ac ymyrraeth werthfawr yn ystod gwersi. Mae'r amgylchedd dysgu ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn dawel, yn gartrefol ac yn drefnus. Mae staff yn cynnal arferion clir a chyson sy'n helpu disgyblion i ymdawelu a theimlo'n hyderus. Mae'r awyrgylch hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar les a diogeledd disgyblion o fewn y lleoliad, ac yn eu galluogi i wneud cynnydd cynnar da yn eu dysgu.

Mae athrawon yn canolbwyntio gweithgarwch disgyblion ar amcanion clir ar gyfer eu dysgu yn ystod gwersi. Maent yn nodi'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud i lwyddo yn eu gwaith, ac yn cyfeirio'n ôl at y disgwyliadau hyn yn ddefnyddiol yn ystod gweithgarwch disgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion herio'u hunain, er enghraifft trwy gynllunio tasgau cysylltiedig â lefelau cynyddol o anhawster, a thrwy annog disgyblion i wella ar eu canlyniad gorau blaenorol mewn gweithgareddau wedi'u hamseru sy'n datblygu eu chwimder meddyliol. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o holi yn ystod gwersi i wirio dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i rannu eu syniadau a'u barn. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu synnwyr cryf o'u cyfrifoldeb am reoli eu cynnydd eu hunain. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn rhoi adborth manwl gywir i ddisgyblion i'w helpu i wybod beth allant ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach.

Mae athrawon yn creu hinsawdd gynhwysol ar gyfer dysgu sy'n annog cyfranogiad gweithredol yr holl ddisgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd, digidol a chreadigol disgyblion yn raddol yn effeithiol. Ceir darpariaeth gref ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion. Mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau â ffocws sy'n datblygu eu medrau darllen cynnar yn dda. Mae'r sesiynau hyn yn symud ymlaen ar gyflymdra bywiog ac yn meithrin gwybodaeth disgyblion yn systematig mewn ffordd ddifyr. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cynnar ac yn mynd ymlaen i ddatblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol hyderus. Fodd bynnag, mae'r cynllunio ar gyfer datblygu ysgrifennu disgyblion yn llai cyson. Nid yw disgyblion hŷn, yn arbennig, yn cael digon o gyfle i ysgrifennu at ystod eang o ddibenion nac ymestyn eu hysgrifennu yn ddigonol.

Mae pob dosbarth yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu defnydd o Gymraeg llafar. Mae oedolion yn cynorthwyo disgyblion i chwarae rôl arweiniol mewn sesiynau byr, dyddiol, sy'n meithrin eu cynefindra a'u hyder ac yn ymestyn eu geirfa'n llwyddiannus. Mae oedolion yn fodelau rôl da ar gyfer yr iaith. Maent yn annog disgyblion i adeiladu ar eu dysgu blaenorol a bod yn uchelgeisiol o ran ymestyn eu hystod o gwestiynau ac ymatebion ar lafar. Oherwydd hyn, mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn sesiynau â ffocws ac yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion, staff a theuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae gwerthoedd craidd yr ysgol yn cael eu hymgorffori'n dda yn ei bywyd bob dydd ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer cynnal hawliau a chyfrifoldebau pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae hyn yn amlwg yn y perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain. Mae cwrteisi, ystyriaeth a pharch ar y ddwy ochr yn nodweddion cryf o'r perthnasoedd hyn sy'n cyfrannu'n sylweddol at ethos cyfeillgar yr ysgol.

Mae athrawon a swyddogion cymorth dysgu yn adnabod disgyblion yn dda. Maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau lles disgyblion a meithrin eu synnwyr o berthyn. Maent yn trefnu darpariaeth ystyriol i fynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion bregus trwy gymorth anogaeth, ac yn ymateb yn sensitif i broblemau y gallai

disgyblion ddod ar eu traws o ddydd i ddydd. O ganlyniad, mae pob un o'r disgyblion yn hyderus i ymddiried mewn staff ac yn teimlo eu bod yn cael gofal da.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i nodi ble bydd disgyblion yn elwa ar gymorth ychwanegol ac yn cymryd camau priodol yn gyflym i'w galluogi i wneud cynnydd. Maent yn elwa ar arbenigedd arbenigwyr am arweiniad ac yn defnyddio hyn yn bwrpasol i ymestyn darpariaeth o fewn yr ysgol yn fuddiol. Mae arweinydd ADY yr ysgol wedi datblygu perthnasoedd proffesiynol cryf gyda chydweithwyr yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos. Maent yn gweithio gyda'i gilydd fel clwstwr i ddatblygu dulliau cyffredin, er enghraifft i fapio ymyrraeth ar gyfer disgyblion ag ADY a chasglu tystiolaeth ar gyfer cymorth arbenigol. Mae'r gweithio hwn mewn partneriaeth yn effeithio'n gadarnhaol ar fedrau a gwybodaeth arweinydd ADY yr ysgol ac yn cryfhau capasiti cyffredinol yr ysgol i ddiwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Oherwydd hyn, mae'r ysgol wedi cael cryn lwyddiant mewn achosion penodol lle mae'r angen am gymorth ychwanegol wedi lleihau dros gyfnod oherwydd y cynnydd cryf a wnaed gan ddisgyblion unigol.

Mae gan swyddogion cymorth dysgu'r ysgol rôl werthfawr mewn cefnogi cynnydd gwahanol grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY. Maent yn cynnal ystod fuddiol o ymyriadau targedig sy'n helpu disgyblion a nodwyd i leihau bylchau yn eu dysgu a datblygu eu medrau cymdeithasol a'u hunanreolaeth emosiynol. Caiff y cymorth hwn ei gynllunio'n dda a'i gyflwyno'n effeithlon heb darfu ar gyfle disgyblion i ddysgu yn y dosbarth, a'i fwynhau. O ganlyniad i gamau cytunedig yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dynodedig, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn gwneud cynnydd da o gymharu â'u mannau cychwyn unigol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau arwain. Er enghraifft, mae'r Prif Fachgen a'r Brif Ferch etholedig yn cynnal gwasanaethau dathlu rheolaidd sy'n amlygu diddordebau a chyflawniadau disgyblion mewn amrywiaeth eang o weithgareddau y tu allan i'r ysgol. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhoi platfform i ddisgyblion hŷn rannu eu diddordebau unigol ac ysbrydoli a hysbysu eu cyfoedion. Mae Criw Cymraeg yr ysgol yn weithgar yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg trwy gemau yn y dosbarth ac yn ystod amseroedd egwyl ac amser cinio. Mae eu rôl yn cyfrannu'n gadarnhaol at broffil y Gymraeg yn yr ysgol.

Un o gryfderau penodol darpariaeth yr ysgol yw ei menter gyfoethogi 'Prifysgol Drenewydd yn Notais'. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion o wahanol grwpiau blwyddyn gymryd rhan gyda'i gilydd mewn rhaglen o weithgareddau cynlluniedig nad ydynt ar gael yn gyffredinol mewn gwersi. Mae opsiynau'n deillio o awgrymiadau disgyblion a diddordebau staff ac yn darparu profiadau fel trin gwallt dan arweiniad rhiant a pherchennog busnes lleol, sesiynau ffitrwydd sy'n cael eu cynnal gan hyfforddwyr o glwb bocsio cyfagos, a chyfle i weithio fel tîm i gynhyrchu sioe radio. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r sesiynau hyn yn fawr oherwydd eu bod yn mwynhau'r profiadau newydd, y cyfle i ddysgu gyda phlant eraill ac oedolion, a'r cyfle i ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o dripiau ac ymwelwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o'u cymuned leol, eu diwylliant Cymreig a'r byd ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld ag Amgueddfa Werin Cymru

Sain Ffagan, Castell Caerdydd, Pwll Mawr a'r Bathdy Brenhinol i ddysgu am newidiadau ym mywydau pobl a rôl busnes yn economi fodern Cymru. Caiff disgyblion gyfleoedd da i gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon hefyd, gan gynnwys clybiau pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd rheolaidd ar ôl yr ysgol, ac i greu a pherfformio fel rhan o'u dathliad Eisteddfod bob blwyddyn.

Mae'r ysgol yn rhoi amlygrwydd da i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hawliau dynol a'u hymwybyddiaeth o'u rôl fel dinasyddion ifanc cyfrifol. Mae gwersi yn y dosbarth, gwasanaethau wedi'u seilio ar hawliau a gweithgareddau amgylcheddol yn helpu pob un o'r disgyblion i ddysgu sut i ofalu am ei gilydd a'r amgylchedd yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch am bobl eraill ni waeth beth yw eu gwahaniaethau a'u nodweddion unigol. Fodd bynnag, mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion yn llai cyson ac ni chaiff gweithredoedd addoli ar y cyd eu cynllunio na'u cyflwyno'n briodol.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi cynyddu yn dilyn gostyngiad sylweddol ar ôl y pandemig. Mae gan yr ysgol systemau effeithiol i olrhain a dadansoddi gwybodaeth am bresenoldeb ac mae'n cymryd camau priodol, pan fydd angen. Mae staff yn rhoi sylw penodol i bresenoldeb disgyblion bregus, ac yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth lles addysg ac asiantaethau eraill i gefnogi gwelliant. Mae pob un o'r staff wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a lles disgyblion yn eu gofal. Maent yn dangos dealltwriaeth gref o'u rôl mewn cadw disgyblion yn ddiogel ac yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn yn ddiwyd. O ganlyniad, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref a phwrpasol. Ar y cyd ag uwch arweinwyr, mae'n creu ac yn cynnal ethos tîm cadarnhaol sy'n canolbwyntio'n glir ar alluogi cynnydd da disgyblion a lles cymuned yr ysgol gyfan. Mae swyddogion cymorth dysgu yn rhan werthfawr ac effeithiol o'r tîm hwn ac yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni nodau'r ysgol. Mae pob un o'r staff yn hyrwyddo ac yn cynnal diddordeb ar y cyd yn niogelwch disgyblion. Maent yn dangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol yn gyson ac yn gosod esiampl dda i ddisgyblion.

Mae'r pennaeth yn gweithio'n gydwybodol gyda'r llywodraethwyr, y staff, y disgyblion a'r rhieni i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd a gosod dyheadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae ei hymrwymiad i ddatblygu a gwella gwaith yr ysgol yn adlewyrchu uchelgais yr ysgol i 'Ysbrydoli, darganfod, cyflawni, a disgleirio' yn gywir.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent wedi datblygu prosesau addas i werthuso'i pherfformiad a chynllunio ar gyfer gwelliant. Maent yn defnyddio gweithgareddau monitro amserol a ffocysedig i ddatblygu darlun cywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Er enghraifft, ar ôl monitro llyfrau disgyblion, nododd arweinwyr fod angen cynyddu cyfleoedd i ddatblygu ysgrifennu disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella yn rheolaidd. Maent yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn rhoi sylw agos i ddiwygio darpariaeth ADY ar hyn o bryd, ac yn sicrhau bod yr ysgol yn mynd i'r afael ag anghenion pob un o'r disgyblion yn effeithiol. Mae pob un o'r staff yn meddu ar

ddealltwriaeth dda o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da i wireddu dyluniad ei chwricwlwm.

Mae arweinwyr yn gwneud trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae targedau'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol ac yn sicrhau ymagwedd gydweithredol at wella ymhlith staff. Mae arweinwyr yn trefnu darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer dysgu proffesiynol ac yn hyrwyddo hyn yn deg ar draws yr ysgol. Mae dysgu proffesiynol yn cysylltu'n glir â blaenoriaethau gwella cenedlaethol a rhai'r ysgol. Mae staff ar bob lefel yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu eu medrau eu hunain. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o bartneriaethau ag ysgolion lleol i alluogi staff i gydweithio ar welliannau a rhannu eu harferion. Er enghraifft, mae'r arweinydd ADY wedi datblygu partneriaeth fuddiol â staff o ysgolion lleol eraill sydd wedi cefnogi'r ysgol i reoli newidiadau cymhleth yn llwyddiannus.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn goruchwylio'i chyllid yn frwd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol yn briodol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, prin yw eu cyfraniad at osod blaenoriaethau strategol yr ysgol ac mae eu profiad uniongyrchol o waith yr ysgol o ddydd i ddydd yn gyfyngedig. Mae arweinwyr yn ymwybodol o hyn, ac wedi dechrau ymgysylltu â llywodraethwyr yn fwy uniongyrchol yn ddiweddar wrth werthuso ansawdd darpariaeth yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda am newyddion a datblygiadau'r ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o ap cyfathrebu ac yn anfon cylchlythyrau electronig rheolaidd. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi pa mor gyflym y mae arweinwyr a staff yn ymateb i unrhyw bryderon ac awgrymiadau a godir ganddynt. Mae arweinwyr yr ysgol yn darparu cyfleoedd addas i helpu rhieni i ddysgu am newidiadau diweddar mewn addysg. Er enghraifft, defnyddion nhw noson gyflwyno am weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn yr ysgol i rannu taith yr ysgol a gwrando ar farn rhieni. Yn ychwanegol, mae staff yn cyfarfod â rhieni a gofalwyr yn ystod amseroedd gollwng a chodi i gynnal cysylltiad agos â chymuned estynedig yr ysgol. O ganlyniad, mae rhieni a gofalwyr yn teimlo bod yr ysgol yn amgylchedd teuluol diogel a gofalgar.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus. Maent yn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a thymor hir yn ddarbodus, ac yn sicrhau bod gwariant yn cael ei flaenoriaethu ar wella deilliannau disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i fanteisio ar ymyriadau teilwredig ac elwa ar fynediad at ystod eang o weithgareddau cyfoethogi.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/05/2023